

**Gwneud Cymru'n
Genedl Dim Drws
Anghywir – i ba
raddau rydyn ni'n
llwyddo?**

Chwefror '22



**Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales**

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad gan yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru	3
Geiriau lletchwith	5
Beth wnethon ni	7
Beth ganfyddon ni	8
Prif rwystrau sy'n atal Cymru rhag bod yn wlad Dim Drws Anghywir	9
Beth rydyn ni eisiau i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) a Llywodraeth Cymru wneud nawr	11
Beth byddwn ni'n ei wneud nesaf	13
Atodiad 1	14
Ymatebion BPRhau i'n hargymhellion	
Argymhelliad 1	16
- Enghreifftiau o achosion cadarnhaol	
Argymhelliad 2.1	20
Argymhelliad 2.2	20
- Enghreifftiau o achosion cadarnhaol	21
Argymhelliad 2.3	22
- Enghreifftiau o achosion cadarnhaol	22
Argymhelliad 3	23
- Enghreifftiau o achosion cadarnhaol	24
Argymhelliad 3.2	25
- Enghreifftiau o achosion cadarnhaol	26
Argymhelliad 3.3	26
- Enghreifftiau o achosion cadarnhaol	27
Atodiad 2	28
Ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion o 2020	
Manylion Cyswllt	33

Cyflwyniad

Cyflwyniad gan Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Yn 2019-20 bu fy nhîm a minnau yn ymweld â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru i ddarganfod sut roedd gwasanaethau'n cydweithio i gefnogi plant ag anghenion cymhleth. O ganlyniad, fe alwais i ar bob rhanbarth i fabwysiadu ymrwymiad 'Dim Drws Anghywir' fel nad oedd plant a'u teuluoedd yn cael eu hanfon yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau neu'n gweld drysau'n cau yn eu hwyneb. Yn hydref 2021 buon ni'n ymweld unwaith eto, ac mae'r adroddiad dilynol hwn yn sôn am y cynnydd a wnaed.

- Mae gan Ethan, sy'n 11, anabledd dysgu ysgafn ac mae ei ysgol wedi rhoi atgyfeiriad iddo'n ddiweddar ar gyfer asesiad niwroddatblygiadol, gan eu bod yn credu y gallai fod ganddo awtistiaeth. Yn ddiweddar mae wedi bod yn dweud ei fod yn meddwl am ladd ei hunan. Mae'r fîm Un Pwynt Mynediad lleol yng Ngwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc y bwrdd iechyd wedi trefnu apwyntiad ar y cyd ar gyfer Ethan gyda phediatregydd a seiciatrydd. Mae eu Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar wedi cwrdd â'i rieni a'i ysgol i roi cyngor a hyfforddiant ar gefnogaeth ac ymatebion cyson ar gyfer Ethan.
- Bu gan Elen, sy'n 14 oed, lawer o bryderon ers i'w thad farw o Covid 6 mis yn ôl. Mae hi wedi bod yn yfed alcohol a chafodd ei gwahardd o'r ysgol yn ddiweddar ar ôl pwnio disgybl arall. Mae ei hysgol wedi'i hatgyfeirio hi at banel llesiant lleol, ac o fewn 2 wythnos mae hi wedi gweld gweithiwr iechyd meddwl cynradd, wedi cael cynnig grŵp cefnogi i blant sydd wedi dioddef profedigaeth, ac mae ei mam wedi cael cynnig cymorth rhianta.
- Mae gan Grace, sy'n 16 oed, Syndrom Down ac anghenion iechyd corfforol cymhleth. Mae gweithiwr allweddol pontio o brosiect trydydd sector, sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, yn cefnogi Grace a'i rhieni i gynllunio'i hiechyd, ei haddysg, ei gofal a'i hanghenion tai i'r dyfodol. Mae'r gweithiwr allweddol yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gydlynu ar draws yr holl wasanaethau.

Enghreifftiau yw'r rhain o ddull gweithredu Dim Drws Anghywir. I lawer o blant a theuluoedd yng Nghymru, nid dyma'u profiad hyd yma wrth geisio cefnogaeth, ond mae enghreifftiau o hyn yn digwydd eisoes. Does dim esgus i ni beidio â bod yn anelu at wneud Dim Drws Anghywir yn norm ym mhob man yng Nghymru.

Mae *Dim Drws Anghywir* yn cyffwrdd â llawer o hawliau dynol plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gan gynnwys erthygl 24 — yr hawl i'r safon orau bosib o ofal iechyd; erthygl 20 — yr hawl i gymorth arbennig os na fydd plentyn yn byw gyda'u teulu; ac erthygl 23 — yr hawl i ofal arbennig os bydd gan blentyn anabledd neu broblem iechyd meddwl. Gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yw dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant, ac mae dyletswydd arbennig yn achos plant sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth.

I ddechrau, rwy'n diolch i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru am ymgysylltu â ni. Neilltuodd pob Bwrdd amser ac adnoddau i ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth ac am gyfarfod uniongyrchol â'r Bwrdd. Mae'r cyfnod ers mis Mawrth 2020 wedi bod yn wahanol i unrhyw gyfnod arall ar hyd ein hoes, a'r rhai sy'n eistedd o amgylch y ford yn y BPRhau yn aml yw'r rhai sydd ar reng flaen cyflwyno gwasanaethau sy'n gwneud eu gorau i gadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel, yn iach ac yn hapus. Hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith rydych chi'n ei wneud, a diolch i chi am roi o'ch amser i gwrdd â fi, ac i ymateb i'm hargymhellion mewn modd mor adeiladol.

Hoffwn ddiolch yn arbennig hefyd i'r bobl ifanc sydd wedi cyfrannu at y prosiect hwn a'm cynghori i a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch y meysydd gweithredu sy'n flaenoriaeth iddyn nhw ar gyfer y BPRhau. Cafodd y bobl ifanc gefnogaeth dda gan T4CYP, Plant yng Nghymru ac Ein Meddwl, Ein Dyfodol Cymru i chwarae rhan lawn a gweithredol mewn cyfres o gyfarfodydd a thrafodaethau pwysig, a bu eu cyfraniadau'n amhrisiadwy o ran dylanwadu ar ein hadroddiad a'n hargymhellion.

Mae effaith y pandemig ar wasanaethau i blant a phobl ifanc yn bellgyrhaeddol a difrifol. Mae'n ddealladwy bod hyn wedi effeithio ar allu'r BPRhau i gyflawni rhai o'u cynlluniau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddweud bod ymrwymiad y Byrddau i barhau i ddarparu gwasanaethau plant a phobl ifanc, gan gadw rhywfaint o le ar gyfer cynllunio i'r dyfodol ynghylch sut mae creu dull gweithredu Dim Drws Anghywir i Gymru, wedi creu argraff arna i.

Mae rhai meysydd, fodd bynnag, lle rwy'n siomedig nad wyf wedi gweld cynnydd pellach, a byddaf yn amlinellu'r rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Yn ogystal ag argymhellion i'r BPRhau, fe ofynnais i Lywodraeth Cymru ymateb i gyfres o argymhellion. Eto, o ystyried y pwysau aruthrol ar y llywodraeth a'n gwasanaethau cyhoeddus ar yr adeg hon, mae rhannau o'u hymateb wedi creu argraff fawr. Wrth gwrs, mae rhai meysydd allweddol lle rwy'n credu gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy, a bydda i'n amlinellu'r rheiny yma hefyd.

Geiriau lletchwith

Yn yr adroddiad hwn byddwn ni'n sôn am lawer o wahanol sefydliadau a phrofiadau. Efallai bydd rhai o'r geiriau'n lletchwith, felly rydyn ni wedi creu rhestr o eiriau lletchwith yma i chi wirio'ch dealltwriaeth.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (byddwn ni'n dweud BPRhau fel arfer)	Mae'r Byrddau'n gweithio i ddarganfod beth yw anghenion y bobl yn eu rhanbarth, ac i ddod â iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a gwasanaethau eraill at ei gilydd i ddiwallu'r anghenion hynny.
Comisiynydd Plant Cymru	Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Gwaith Sally yw sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Cymru yn derbyn eu hawliau plant.
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Byddwn ni hefyd yn dweud Hawliau Plant.	Rhestr o'r hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc yw CCUHP. Hawliau Plant yw'r pethau mae eu hangen arnoch chi i dyfu i fyny'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.
Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (gallech chi weld hyn yn cael ei ysgrifennu fel T4CYP)	Sefydlwyd y Rhaglen i wella'r gwasanaethau / gefnogaeth llesiant emosïynol a iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Y bobl sy'n gweithio i'r Rhaglen greodd y fframwaith NEST / NYTH.
NEST / NYTH	Yn Saesneg, mae NEST yn sefyll am Nurturing; Empowering; Safe; Trusted. NYTH yn Gymraeg = rhoi Nerth; Ymddiried; Tyfu'n ddiogel; Hybu. NEST / NYTH yw enw cynllun ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru i greu system gefnogi ddi-fwch ar gyfer iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Y nod yw sicrhau bod arbenigedd a chynghor yn gyflymach eu cyrchu, a chefnogi oedolion sy'n cefnogi plant i feddu ar yr offer angenrheidiol i helpu.
Rhanbarth	Mae 7 BPRh ar gyfer y 7 rhanbarth yng Nghymru — dyma'r ardaloedd mae'r BPRhau unigol yn gweithio ynddynt. Maen nhw'n cwmpasu'r un ardaloedd â Byrddau Iechyd.
Awdurdod Lleol (gallech chi weld hyn wedi'i ysgrifennu fel ALI)	Cyfrifol am gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn eich ardal leol.
Bwrdd Iechyd Lleol (gallech chi weld hyn wedi'i ysgrifennu fel BILI)	Cyfrifol am wasanaethau iechyd yn eich ardal leol.
Iechyd Meddwl a Llesiant	Ystyr iechyd meddwl da yw gallu meddwl, teimlo ac ymateb yn gyffredinol yn y ffyrdd rydych chi angen ac eisiau i fyw eich bywyd. Ond os byddwch

	<p>chi'n mynd trwy gyfnod o iechyd meddwl gwael, gallech chi gael fod sut rydych chi'n aml yn meddwl, yn teimlo neu'n ymateb yn mynd yn anodd, neu hyd yn oed yn amhosib, ymdopi â nhw.</p> <p>Llesiant yw cyflwr o fod yn gyfforddus, yn iach ac yn hapus.</p>
Anghenion cymhleth	<ul style="list-style-type: none"> ○ Plant ag anableddau a/neu salwch ○ Plant sydd â phrofiad o ofal ○ Plant sydd angen gofal a chymorth ○ Plant sydd mewn perygl o fynd i ofal ○ Plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiad.
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	<p>Bod ag anhawster neu anabledd dysgu sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw gyda'u dysgu.</p>
Dim Drws Anghywir	<p>Y dull gweithredu mae'r Comisiynydd Plant wedi galw amdano, er mwyn i bobl ifanc gael yr help sydd ei angen arnyn nhw ble bynnag maen nhw'n gofyn amdano — fel eu bod nhw ddim yn clywed eu bod wedi curo ar y 'drws anghywir'.</p>
Asesiad Anghenion Poblogaeth (neu AAP)	<p>Mae'n rhaid i bob Bwrdd asesu'r angen am wasanaethau a sut caiff y gwasanaethau hynny eu darparu yn eu hardal hyd at 2027, a pharatoi adroddiad erbyn mis Ebrill 2022.</p>

Beth wnaethon ni

Yn 2019/20, fe wnaethon ni ymweld â phob BPRh yng Nghymru i ddarganfod beth roedden nhw'n ei wneud i gefnogi plant a phobl ifanc, yn arbennig y rhai oedd ag anghenion cymhleth, yn eu rhanbarth. Ym mis Mehefin 2020 fe wnaethon ni gyhoeddi ein hadroddiad ar ganfyddiadau'r ymweliadau hynny, sef [Dim Drws Anghywir — dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant](#).

Rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2021, fe ofynnwn ni am ddiweddariad ysgrifenedig gan bob BPRh ar eu cynlluniau Dim Drws Anghywir mewn perthynas â'r pum argymhelliad yn yr adroddiad hwnnw, ac fe wnaethon ni gwrdd â phob BPRh yng Nghymru eto. Yn ogystal â gofyn am ymatebion ysgrifenedig i'n hargymhellion, fe ofynnwyd iddyn nhw hefyd ymateb i dair enghraifft o brofiadau bywyd go iawn plant a phobl ifanc oedd heb gael y gwasanaeth cydlynus dylsen nhw ei dderbyn (daeth y rhain o'n [gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor](#)), gan nodi sut bydd gwaith parhaus eu Bwrdd a'i gynlluniau i'r dyfodol yn gwneud gwahaniaeth i atal y profiadau drwg hyn rhag digwydd i blant a phobl ifanc eraill.

Ar gyfer rhan o'r prosiect hwn, rydyn ni wedi gweithio ochr yn ochr â Rhaglen Wella'r GIG, Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP), wrth iddyn nhw ddatblygu eu [Fframwaith NEST / NYTH](#), a luniwyd i gefnogi BPRhau a'u holl bartneriaid mewn dull gweithredu system gyfan i ddod â gwasanaethau at ei gilydd i gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Mae egwyddorion allweddol y fframwaith hwn yn cynnwys dull gweithredu Dim Drws Anghywir, ac yn ein barn ni mae'r fframwaith hwn yn adlewyrchu ein blaenoriaethau ar gyfer creu gwasanaeth sy'n dylunio gwasanaethau o amgylch anghenion plant a phobl ifanc, yn hytrach na disgwyl i blant a phobl ifanc ffitio i mewn i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli.

Ym mis Tachwedd 2021, buon ni'n gweithio ar y cyd â'r rhaglen T4CYP i drafod *Dim Drws Anghywir* a'r Fframwaith NEST / NYTH gyda grŵp o bobl ifanc. Cynigiodd y bobl ifanc gyfres o flaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl a llesiant emosiynol, a chyfres o gwestiynau i'r BPRhau ynghylch eu cynlluniau. Ar 30 Tachwedd 2021, cafodd y bobl ifanc gyfle i [ofyn y cwestiynau hyn](#) (Saesneg yn unig) yn uniongyrchol i gynrychiolwyr o bob BPRh yng Nghymru.

Yr wythnos ganlynol, yn gynnar ym mis Rhagfyr, bu'r bobl ifanc yn cwrdd â'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Lynne Neagle AS, ac yn cyflwyno'r hyn roedden nhw wedi'i glywed gan y BPRhau iddi hi. Fe wnaethon nhw hefyd ofyn llawer o gwestiynau iddi am y pethau mae hi a Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i wella'r gwasanaethau hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyfres o ganfyddiadau allweddol o'r cyfarfodydd gyda'r Byrddau, yn ogystal â beth rydyn ni eisiau i'r BPRhau a Llywodraeth Cymru ei wneud nesaf.

Mae Atodiadau 1 a 2 yn nodi rhagor o fanylion ynghylch y cynnydd mae BPRhau a Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran ymateb i bob un o'n hargymhellion. Mae Atodiad 3 yn rhestru ein hargymhellion ffurfiol o'r adroddiad hwn.

Beth ganfyddon ni

- Mae gan bob BPRh gynllun ar gyfer darpariaeth plant, ac maen nhw wedi dechrau gwneud newidiadau tuag at ddull gweithredu Dim Drws Anghywir.
- Bellach mae gan bob BPRh grŵp wedi'i neilltuo ar gyfer materion plant, sy'n golygu bod plant yn adrodd i'r prif Fwrdd.
- Mae yna rai enghreifftiau gwirioneddol galonogol o ddefnyddio dull gweithredu Dim Drws Anghywir, gan gynnwys y canlynol:
 - Mae sawl Bwrdd wedi gwella sut mae gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl plant yn cefnogi ac yn hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill mewn mannau fel ysgolion a gofal cymdeithasol.
 - Mae gan rai Byrddau gynlluniau i greu 'noddfa' newydd neu ganolfannau galw heibio ar gyfer plant sy'n profi trallod difrifol o ran iechyd meddwl neu emosiwn.
 - Mae gan y rhan fwyaf o Fyrddau gynlluniau i greu lleoedd newydd i aros dros nos neu am rai dyddiau os bydd angen, i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, neu i rai sy'n profi argyfwng iechyd meddwl. Bydd y rhain yn helpu i osgoi gorfod derbyn plant i'r ysbyty, neu eu lleoli filltiroedd lawer o'u cartref, pan nad oes angen hynny neu nad yw er eu lles pennaf. Mae rhai o'r cynlluniau hyn wedi symud ymlaen, a bydd y ddarpariaeth newydd yn cychwyn yn 2022.
 - Mewn sawl rhanbarth, mae'r timau argyfwng iechyd meddwl plant wedi estyn eu gweithrediadau. Mewn rhai ardaloedd mae hynny'n golygu y byddant yn gweithredu 24/7, sydd i'w groesawu'n fawr, yn enwedig o ystyried yr anawsterau presennol ynghylch recriwtio staff GIG.
 - Mae gan y rhan fwyaf o'r Byrddau systemau newydd, neu bydd y rheiny yn eu lle yn fuan, i gefnogi plant ag Anableddau Dysgu sy'n pontio o wasanaethau plant i rai oedolion.
 - Mae gan y rhan fwyaf o'r Byrddau gynlluniau ar gyfer llety newydd therapiwtig i bobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol cymhleth, sy'n aml yn gorfod symud yn bell oddi cartref i dderbyn gofal ar hyn o bryd. Mae eu costau cychwynnol yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, a bydd rhai yn agor yn 2022.
- Gallai rhai Byrddau ddweud wrthyn ni sut maen nhw eu hunain wedi gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, a sut maen nhw wedi gwneud gwybodaeth am wasanaethau yn fwy hygyrch. Mae gan un Bwrdd, er enghraifft, BPRh cysgodol o bobl ifanc.
- Rydyn ni'n falch o ddatblygiad y fframwaith NEST / NYTH newydd, a luniwyd i gefnogi BPRhau i gyflwyno 'dull gweithredu system gyfan' fydd yn golygu bod llant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth gywir, a hynny'r tro cyntaf. Mae fframwaith NEST/NYTH yn cynnwys Dim Drws Anghywir fel un o'i brif egwyddorion. Mae'r Byrddau wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r fframwaith NEST / NYTH newydd, ac mae gan bawb ohonynt gynlluniau i weithio o fewn y fframwaith hwn.

Prif rwystrau sy'n atal Cymru rhag bod yn wlad Dim Drws Anghywir

- Mae plant a phobl ifanc yn dal i glywed, bob dydd yng Nghymru, eu bod wedi dod i'r drws anghywir wrth iddyn nhw estyn allan am gymorth gyda'u hanghenion iechyd meddwl, emosiynol neu ymddygiadol. Rydyn ni'n gwybod hyn ar sail ein gwasanaeth gwaith achosion ein hunain, a hefyd oherwydd bod y BPRhau eu hunain yn adrodd am hynny.
- Rydyn ni'n dal mewn sefyllfa lle mae'r plant sydd â'r lefel uchaf o angen yn derbyn gwasanaeth nad yw'n diwallu eu hanghenion oherwydd bod awdurdodau iechyd a lleol yn methu cytuno ar y lleoliad a'r cyllid 'Gofal Parhaus' sy'n ofynnol. Mae eraill yn wynebu oedi sylweddol wrth gytuno ar gyllid, ac mae hynny'n cael ei drafod o'u blaenau. [Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru](#) sy'n dweud bod **rhaid** i asiantaethau gydweithio lle mae angen gofal parhaus i blant, ond mae'n nodi'n unig y *gall* Byrddau Iechyd Lleol (BILL) ac Awdurdodau Lleol (All) ariannu'r gofal ar y cyd, ac yn ymarferol mae hynny'n arwain at anghytuno rheolaidd, sy'n gadael plant a'u teuluoedd mewn limbo, heb y gefnogaeth yr aseswyd sydd angen. Roedd yn drawiadol bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd eu bod heb ddatrys y broblem hon. Mae hynny'n gwbl annerbyniol. Yn ein barn ni, mae angen i Lywodraeth Cymru gamu i mewn ac atal hyn rhag digwydd; nid yw'r canllawiau cyfredol yn cael digon o effaith ar brofiadau plant.
- Mae Byrddau wedi ymrwymo i greu llety newydd diogel i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth. Mae hyn i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, unedau asesu yw'r rhain yn bennaf, yn darparu cymorth tymor byr tra bod lleoliad pellach yn cael ei drefnu. Rydyn ni'n teimlo y gallai fod angen datblygu peth darpariaeth tymor hwy ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n methu cael eu cefnogi'n llwyddiannus i ddychwelyd adref neu i ofal maeth.
- Mae'r amserau aros ar gyfer asesiad o gyflwr niwroddatblygiadol (yn achos plant yr amheuir bod ganddynt Awtistiaeth, ADHD, a chyflyrau eraill tebyg) yn eithriadol o hir, ac yn y cyfamser gall plant a'u teuluoedd dderbyn ychydig iawn o gefnogaeth, os o gwbl. Mae rhai cynlluniau da yn cael eu datblygu ar gyfer hyn ar lefel genedlaethol, ond yn y cyfamser mae'r cynlluniau ar gyfer gwella'r gefnogaeth yn y rhanbarthau yn ddarniog.
- Pan fydd gan blant o bosib gyflwr niwroddatblygiadol *yn ogystal* â iechyd meddwl gwael, maen nhw'n aml yn derbyn gwasanaeth darniog iawn, er bod y cyfuniad hwn yn un cyffredin iawn.

- Mae gan y rhanbarthau farn wahanol ynghylch rôl BPRh. Dylai fod ganddynt drosolwg o'r gwasanaethau yn eu rhanbarth a dylent greu cynlluniau ar gyfer cyflawni — gan sicrhau bod gwahanol rannau o'r rhanbarth yn dysgu o arfer gorau ardaloedd eraill, a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cysylltu i ymateb i anghenion cymhleth. Ymddengys bod rhai'n canolbwyntio'n fwy ar ymateb i gyfleoedd ariannu cenedlaethol nag ar drosolwg strategol, ond mae hynny'n gwella yn y rhan fwyaf o ardaloedd.
- Er bod digwyddiadau dysgu a rennir yn cael eu trefnu, roedd aelodau o'r BPRhau yn aml yn anymwybodol o ddatblygiadau mewn rhanbarthau eraill nac mewn ardaloedd o'u rhanbarth eu hunain, a allai eu helpu gyda'u dull gweithredu Dim Drws Anghywir eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer llety newydd diogel, lle teimlai rhai BPRhau fod rhwystrau sylweddol, a lle roedden nhw'n awyddus i ddysgu gan eraill sut roedd trefniadau wedi cael eu cytuno yn eu rhanbarth.
- Nid yw pob BPRh mewn sefyllfa i gyflwyno fframwaith NEST / NYTH yn hyderus eto fel rhan o'u gweithrediadau cyfredol. Mae angen cefnogaeth barhaus arnyn nhw, a monitro priodol i sicrhau eu bod yn cyflawni. Mae angen i hynny gael ei drefnu gan Lywodraeth Cymru. Mae estyn rhaglen T4CYP hyd at fis Medi 2022 yn gam i'w groesawu yn hyn o beth.
- Yn amlwg mae materion systemig eraill yn dal cynnydd yn ôl, gan gynnwys y pwysau eithafol ar wasanaethau ar hyn o bryd, a'r broblem recriwtio y soniwyd llawer amdani, sy'n effeithio'n ddifrifol ar lawer o wasanaethau.

Beth rydyn ni eisiau i'r BPRhau a Llywodraeth Cymru wneud nawr

Mae ein dadansoddiad o gynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol wedi'i gynnwys mewn atodiad ar wahân. Dyma beth hoffem ni i bob un o'r **BPRhau ei wneud nesaf**:

- Troi cynlluniau yn gamau gweithredu pendant. Roedd yr holl bobl ifanc y buon ni'n gweithio gyda nhw ar y prosiect yma yn myfyrio eu bod yn clywed gormod am gynlluniau ar gyfer y dyfodol a dim digon am ddarparu gwasanaeth nawr, ar hyn o bryd. Buon nhw'n rhannu'r adborth yma â'r Dirprwy Weinidog a'i swyddogion, ac rydyn ni'n disgwyl i Lywodraeth Cymru alw BPRhau i gyfrif am y pwynt pwysig yma.
- Rhoi blaenoriaeth i drefniadau Gofal Parhaus i blant a phobl ifanc fel mater o frys. Dylai aelodau byrddau ac uwch arweinyddion o awdurdodau lleol a byrddau iechyd gymryd rhan mewn gweithdy a drefnwyd gan y Llywodraeth, fel yr argymhellir isod, i gael hyd i ddull dibynadwy a chyflym o gyfuno cyllid rhwng eu gwasanaethau er mwyn darparu trefniadau addas a gwirioneddol amlasiantaeth ar y cyd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, a hynny mewn modd effeithiol ac effeithlon er lles pennaf y plentyn. Mae angen i Lywodraeth Cymru roi sylw i unrhyw rwystrau o'r canllawiau cyfredol mewn cydweithrediad a'r Byrddau.
- Sicrhau bod cynlluniau Dim Drws Anghywir yn cael eu cefnogi gan gynlluniau strategol clir, strwythur llywodraethu, a chanlyniadau mesuradwy sy'n cwmpasu cymorth cynnar ac ataliaeth, y ffaith nad yw'r 'canol coll' yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cefnogaeth arbenigol, a'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- Ystyried yr enghraifft arfer da o safbwynt cyfranogiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc a amlinellir yn yr adroddiad hwn, a'r adnoddau a gynhyrchwyd gan ein swyddfa, er mwyn trefnu ymgysylltu uniongyrchol a chynhyrchu ar y cyd â phlant a phobl ifanc i lywio'u gwaith.
- Profi eu cynnydd yn barhaus trwy olrhain profiadau cyfredol plant a'u teuluoedd sydd angen cymorth a gwasanaethau. Rydyn ni'n argymhell y dylid cyflwyno enghreifftiau sy'n achosion cyfoes o lwyddiannau a rhwystrau ym mhob cyfarfod o'r bwrdd.
- Arddangos eu gwaith i blant a phobl ifanc mewn modd hwylus i'w ddefnyddio ar eu gwefannau. Rydyn ni'n annog pob Bwrdd i adolygu a gwella sut maen nhw'n hysbysebu'r gwaith maen nhw'n ei wneud ar-lein.
- Hysbysebu'n well gynlluniau sydd ar waith ar gyfer protocolau pontio ar gyfer plant ag anabledau dysgu, gydag adnoddau hygyrch addas. Lle nad yw'r protocolau rhanbarthol hyn yn eu lle eto, dylid rhoi blaenoriaeth iddyn nhw.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Adolygu eu hymateb a gynlluniwyd i'r Papur Gwyn ar Ailgydbwysu Gofal, yng ngoleuni'r diweddariad cynhwysfawr hwn ar gynnydd BPRhau. Dylent ystyried yn arbennig yr angen am greu BPRhau fel 'endidau corfforaethol cyfreithiol' (cyrff sy'n gallu derbyn arian yn uniongyrchol a phenderfynu sut i'w wario heb orfod cyfeirio at sefydliadau eraill i gymeradwyo hynny), ac i orfodi trefniadau ariannu ar gyfer BPRhau. Gallai hyn fod naill ai yn fframwaith ariannu cenedlaethol neu drwy orfodi greu cronfeydd cyllid (trwy ofyn bod partneriaid fel byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn talu cyfran o'r arian tuag at brosiectau ar y cyd, yn hytrach na rhoi'r opsiwn yna iddyn nhw). Heb newid trefniadau ariannu, mae'r newidiadau sy'n dal yn ofynnol, fel yr amlygwyd gan yr adroddiad hwn, yn dal yn annhebygol o gael eu cyflawni. Bydd hyn yn parhau i effeithio ar ganlyniadau a phrofiadau i blant ag anghenion cymhleth.
- Cryfhau'r canllawiau statudol o amgylch rôl y dinesydd, y gofalwr a chynrychiolwyr trydydd sector er mwyn sicrhau eu bod yn gyfranogwyr gweithredol ym mhob rhanbarth.
- Arwain y ffordd o ran sicrhau bod arweinwyr gwasanaeth yn y bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol pob rhanbarth yn cynhyrchu cytundeb ysgrifenedig cynhwysfawr ynghylch trefniadau Gofal Parhaus. Dylid cefnogi hyn trwy ddod ag aelodau'r Bwrdd ynghyd mewn gweithdy lle mae uwch arweinyddion pob gwasanaeth perthnasol sy'n ymwneud â threfniadau gofal parhaus yn bresennol, er mwyn llofnodi cytundeb ysgrifenedig sy'n ymrwymo i gyfuno cyllid rhwng gwasanaethau er mwyn cyflwyno trefniadau amlasiantaeth addas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, a hynny'n effeithiol ac effeithlon er lles pennaf y plentyn.
- Adolygu a diwygio'r canllawiau Gofal Parhaus wedi'r gweithdai hyn, fel bod y dull gweithredu wedi'i gytuno'n genedlaethol ac yn cael ei gyflwyno'n lleol.
- Darparu cynllun manwl ar gyfer sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi BPRhau i gyflwyno dull gweithredu Dim Drws Anghywir trwy'r fframwaith NEST / NYTH, y tu hwnt i fis Medi 2022. Rhaid i hyn gynnwys fframwaith monitro cadarn sy'n galw pob Bwrdd i gyfrif, a threfniadau ariannu tymor hwy.
- Cefnogi a chyflwyno'r dull gweithredu cydlynus ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol, sy'n cydnabod holl sbectrwm niwroamrywiaeth, fel y'i datblygwyd gan T4CYP.
- Monitro'n gadarn weithrediad y Canllawiau Pontio a Throsoglwyddo newydd i fyrddau iechyd.
- Sicrhau bod pontio i wasanaethau oedolion gydag Anabledau Dysgu yn cael ei fonitro, a bod BPRhau yn adrodd i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd ar yr agwedd benodol hon, fel rhan o weithredu NEST / NYTH.
- Parhau â digwyddiadau dysgu a rennir rheolaidd ar gyfer BPRhau, gan gynnwys ffocws ar enghreifftiau o arfer da rhwng rhanbarthau; yn ogystal â mynd ati i annog uwchraddio arfer da oddi mewn i ranbarthau.

Beth byddwn ni'n ei wneud nesaf

Byddwn ni'n parhau i ddilyn hynt yr argymhellion a wnaethon ni yn yr adroddiad hwn, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, sy'n craffu'n ffurfiol ar y BPRhau ac yn eu galw i gyfrif am eu cynnydd. Byddwn ni'n cadw llygad manwl ar waith y Llywodraeth a'r estyniad i raglen T4CYP er mwyn sicrhau bod mecanweithiau digonol ar waith i barhau i alw BPRhau i gyfrif am eu cynnydd wrth wreiddio fframwaith NEST / NYTH a gwella'r mynediad Dim Drws Anghywir i blant niwroamrywiol yn arbennig.

Bydd y gwaith hwn yn bennaf yn rhan o'n gwaith craidd yn dylanwadu ar bolisi. Ochr yn ochr â hyn, byddwn ni'n cyflwyno llyfr achosion o brofiadau teuluoedd i helpu i dywys gwaith parhaus T4CYP a Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n croesawu'r cynnydd yr ydyn ni wedi gallu ei weld yn digwydd o'n hymweliadau eildro, ond mae rhagor i'w wneud o hyd i sicrhau mai dull gweithredu Dim Drws Anghywir yw realiti profiad pob plentyn yng Nghymru, ac rydyn ni'n ymroddedig i gyflawni hynny.

Atodiad 1: Ymatebion BPRhau i'n hargymhellion yn 2020

Argymhelliad 1: Cynllunio dull gweithredu Dim Drws Anghywir a'i roi ar waith

Fel rhan o'n hymateb cenedlaethol i anghenion iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn dilyn y cyfnod clo hwn, dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynllunio a gweithredu dull 'dim drws anghywir' o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, a allai gynnwys timau integredig a modelau panel a hwb i ddarparu cymorth cydlynus amserol, canolfannau galw heibio a chynlluniau ar gyfer darpariaeth breswyl integredig yn ôl y galw. Dylai pob Bwrdd adolygu eu Cynllun Ardal cyfredol i sicrhau eu bod yn cymryd camau digonol i roi sylw i anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, a bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn wir yn gweithio mewn partneriaeth tuag at hynny. Dylai hyn gynnwys ystyried y Cynllun yng ngoleuni pandemig Covid-19, a sut mae hynny'n effeithio ar y blynyddoedd sy'n weddill yn y Cynllun Ardal, yn ogystal â strategaethau tymor hwy.

Sylwadau ar gynnydd y BPRhau

Rydyn ni'n falch o adrodd bod gan bob un o'r saith BPRh gynlluniau yn eu lle a'u bod wedi rhoi rhannau o Ddull Gweithredu Dim Drws Anghywir ar waith. Mae pa mor uchelgeisiol yw'r cynlluniau hynny, ac i ba raddau maen nhw eisoes wedi dechrau cael eu gweithredu, yn amrywio ar draws y rhanbarthau. Ers ein hadroddiad diwethaf, rydyn ni'n falch o ddweud bod gan bob un o'r BPRhau bellach is-grŵp yn benodol ar gyfer materion plant, yn unol â'r hyn [mae canllawiau Llywodraeth Cymru](#) yn galw amdano. Mae rhai o'r is-grwpiau hyn yn newydd iawn ac yn cymryd y camau cyntaf o ran gosod blaenoriaethau, tra bod gan eraill eu rhaglenni strategol a'u cynlluniau cyflawni eu hunain, gyda chysylltiadau llywodraethu clir iawn â'r prif Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Creodd cynlluniau strategol rhai Byrddau argraff arnon ni, gan ein bod yn teimlo eu bod yn cyflwyno cynllun gwirioneddol glir, gyda therfynau amser, a oedd hefyd wedi'u gwreiddio ym mhrofiadau plant a phobl ifanc. Ar ben arall y sbectrwm, roedden ni'n pryderu nad oedd cysylltiad clir i'w weld rhwng deall profiadau pobl ifanc (a welwyd gan bob Bwrdd) a sut bydd cynlluniau'n rhoi newidiadau ar waith er budd pobl ifanc yn ymarferol, a pha rôl ddylai fod gan y BPRhau yn hynny.

Roedd y bobl ifanc y buon ni'n ymgysylltu â nhw yn unfryd o'r farn eu bod yn clywed gormod am 'gynlluniau', fodd bynnag, heb ddigon o gamau gweithredu nac amserlenni pendant neu weladwy. Buon nhw'n rhannu'r adborth hwn yn huawdl gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant mewn cyfarfod gyda hi a'i swyddogion.

Fel mae'r astudiaethau achos isod yn dangos, rydyn ni'n gweld enghreifftiau calonogol o fodolau timau integredig, paneli a hybiau i ddarparu cymorth cydlynus amserol, canolfannau galw heibio a chynlluniau ar gyfer darpariaeth breswyl integredig. Mae hyn i'w groesawu'n fawr, ond eto mae'r darlun yn amrywio o un rhanbarth i'r nesaf. Mewn rhai rhanbarthau, er enghraifft, ymddengys bod timau integredig sy'n ymateb i anghenion plant wedi'u gwreiddio'n dda yn 'y drefn waith arferol'. Mewn rhanbarthau eraill, fe welson ni'r gwahanol asiantaethau yn amlwg yn dal i weithio'n ynysig. Roedd yn amlwg mewn rhai cyfarfodydd nad oedd holl aelodau'r BPRh yn ymwybodol o'r gwaith oedd yn cael ei wneud yn eu rhanbarth; sy'n golygu nad yw dinasyddion o reidrwydd yn derbyn gwybodaeth am wasanaethau a darpariaeth newydd.

Yn ein hadroddiad yn 2020 fe wnaethon ni amlygu [model panel SPACE-Llesiant Gwent](#), lle mae gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i ddarparu ymateb cyflym, amlasiantaeth i blant ag anghenion cymhleth pan fyddan nhw'n cael eu hatgyfeirio gyntaf. Er bod clywed sawl Bwrdd yn siarad am fodolau panel wedi'n calonogi, dydyn ni ddim wedi'n darbwylo y bydd pob un o'r rhain yn cyrraedd y grŵp yma o blant a phobl ifanc yn yr un modd â model Gwent. Fodd bynnag, mae yn ein calonogi i glywed y bydd rhai Byrddau yn adolygu effeithiolrwydd y modelau panel hynny, ac yn ystyried pa ffyrdd gwell sydd o gyrraedd y bobl ifanc hynny ar ôl treialu'r paneli. Bydd angen i aelodau'r BPRh fonitro'r cyfnodau peilot hyn yn fanwl.

Roedd gan chwech o'r saith Bwrdd gynlluniau gweithredol eisoes ar gyfer darpariaeth breswyl newydd a fyddai'n darparu gwelyau newydd i blant ag anghenion cymhleth, ac mae rhai ardaloedd hefyd yn comisiynu gwelyau argyfwng newydd, a fydd yn cael eu croesawu'n fawr. Lluniwyd y rhain i gefnogi plant a phobl ifanc mewn amgylchedd therapiwtig tra bod gofal yn cael ei drefnu, gyda'r nod o osgoi eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen neu eu hanfon i leoliad amhriodol ymhell o'u cartref. Mae hwn yn ddatblygiad sydd i'w groesawu'n fawr, ac yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae gofal cymdeithasol a CAMHS yn cydweithio ar hyn er mwyn sicrhau bod arbenigedd o'r ddau wasanaeth yn cael ei gyfuno i ddiwallu anghenion pobl ifanc.

Gwaetha'r modd, nid ymddengys bod y cydweithio arloesol hwn yn rhoi sylw nac yn datrys y materion rydyn ni'n aml yn eu gweld yn yr achosion lle ceir yr angen mwyaf, pan fydd angen trefniant 'gofal parhaus' ar blentyn neu berson ifanc. Nid oes fawr ddim arwydd bod y sefyllfaoedd y gwnes i eu disgrifio yn fy adroddiad *Dim Drws Anghywir*, lle mae gwasanaethau'n dadlau uwchben plant (gydag angen penderfyniad yn y llys i ddatrys y mater weithiau) ynghylch pwy ddylai dalu am eu gofal. [Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru](#) sy'n dweud bod **rhaid** i asiantaethau gydweithio lle mae angen gofal parhaus ar blant, ond mae'n dweud yn unig y *gall* Billau ac Allau ariannu'r gofal ar y cyd, ac yn ymarferol mae hynny'n arwain at anghytuno rheolaidd, sy'n gadael plant a'u teuluoedd mewn sefyllfa annelwig, heb y gefnogaeth yr aseswyd bod angen amdani. Adroddodd sawl Bwrdd eu bod yn teimlo'n gaeth i'r mater hwn, ac y byddent yn croesawu ymyrraeth gan y Llywodraeth i gynnig fformwlâu ar gyfer trefniadau ariannu cyflymach, plentyn-ganolog.

Rydyn ni hefyd yn falch o adrodd bod y rhan fwyaf o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu dangos sut roedden nhw'n adolygu eu cynlluniau. Roedden ni'n arbennig o falch bod tri BPRh wedi dweud wrthyn nhw eu bod wedi comisiynu adolygiad allanol o'u cynlluniau Dim Drws Anghywir. Mae pob BPRh wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar eu hasesiadau anghenion poblogaeth, ac eto roedden ni'n falch o weld anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu yn y rhain, gyda rhai Byrddau yn arddangos dulliau o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd i'w croesawu'n fawr. Bydd yr asesiadau anghenion poblogaeth hyn yn helpu i lunio dulliau gweithredu BPRhau cyn yr adolygiad o Gynlluniau Ardal sydd i'w gynnal yn 2023.

Engbreiffiau o gynnydd cadarnhaol ym mhob rhanbarth: Chwefror '22

Caerdydd a'r Fro

Yng Nghaerdydd a'r Fro mae cynlluniau ar gyfer model mynediad agored newydd 'lle diogel' ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn trallod dwys, i osgoi gorfod eu derbyn i'r ysbyty. Byddai'r ddarpariaeth newydd hon yn darparu amgylchedd addas, priodol i blant, gyda gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaeth yn ei staffio, a fyddai'n ymateb i anghenion pobl ifanc heb iddyn nhw orfod aros mewn Adran Damweiniau ac Achosion Brys na chael eu rhoi mewn lleoliad amhriodol. Bydd llwybr clir yn cael ei gyflwyno ar gyfer cael mynediad i'r ddarpariaeth hon. Bydd yn cymryd trafodaeth a chynllunio pellach i sicrhau bod y model yma yn gywira bod ganddo'r holl gysylltiadau angenrheidiol i lapio o amgylch y person ifanc a chynnig y cymorth cywir ar yr adeg cywir gan y person cywir. Tra bod y model hwn yn datblygu mae darpariaeth llety dros dro ar gyfer pobl ifanc o dan 18 ar wardiau, nes bod y lle diogel newydd ar waith ac wedi ymsefydlu. Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn estyn oriau gweithredu'r Tîm Argyfwng i 24/7 erbyn mis Mawrth 2022.

Mae Caerdydd a'r Fro wedi ymsefydlu ymarferwyr iechyd meddwl ar draws timoedd ysgol a chymorth cynnar yn y rhanbarth, i wella'r gefnogaeth maen nhw'n ei chynnig. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd yn treialu swydd newydd i weithiwr cymdeithasol CAMHS, rôl a luniwyd i bontio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae sgysiau 'Meddwl ar y Cyd' yn digwydd hefyd wrth oruchwylio gwaith achosion, gan ddefnyddio dull Tîm o gwmpas y Gweithiwr, a dilyn dogfen Fframwaith y cytunwyd arni.

Mae'r cynlluniau ar gyfer llety preswyl newydd yn cynnwys llety asesu a chymorth tymor byr tra bod dychwelyd i'r gymuned neu leoliadau tymor hwy yn cael eu trefnu. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Caerdydd a Bro Morgannwg hefyd yn bwriadu uwchsgilio'r gweithlu gofal preswyl presennol i ddarparu mwy o gefnogaeth therapiwtig.

Cwm Taf Morgannwg

Mae Cwm Taf Morgannwg wedi datblygu porth Un Pwynt Mynediad i CAMHS trwy frysbenno dros y ffôn, ar gyfer gweithwyr proffesiynol a rhieni. Hefyd mae gwasanaeth cymorth rhianta arbenigol ar lesiant emosiynol ar draws y rhanbarth, sy'n golygu bod gweithiwr iechyd meddwl cymunedol yn darparu cyngor uniongyrchol i rieni ym mhob ardal awdurdod lleol a thimau gofal cymdeithasol. Hefyd mae gweithwyr cyswllt CAMHS wedi'u gosod mewn Hybiau Cymorth Cynnar fel rhan o'r asesu cyfannol i deuluoedd. O ran

ymateb i argyfyngau iechyd meddwl, mae fîm argyfwng CAMHS yn estyn ei oriau gweithredu hyd at hanner nos.

Mae Cwm Taf Morgannwg wedi cyflwyno cynllun 3 blynedd ar gyfer llety preswyl rhanbarthol newydd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Mae hyn yn cynnwys datblygu hwb lleoliad preswyl integredig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n dal yn cael ei adeiladu, gyda'r bwriad o fod yn weithredol o fis Rhagfyr 2022. Bydd saith gwely yn hwn (3 gwely ymyrraeth mewn argyfwng; 4 gwely asesu tymor byr neu breswyl tymor canolig). Mae yna hefyd gynlluniau i ddatblygu llety pontio diogel rhanbarthol newydd, cynlluniau sydd dal rhai cychwynnol, ond y gobaiith yw bydd yn cael ei ddatblugu gyda chyfleuster therapiwtig ar y safle ar gyfer hyd at un i bedwar o bobl ifanc sydd ag anghenion ymddygiad ac emosiynol cymhleth.

Gwent

Mae Gwent wedi parhau â gwaith y model Mynydd Iâ (Iceberg), a luniwyd i ddod â gwasanaethau ynghyd i gefnogi anghenion iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Cododd y Bwrdd eu hunain yr angen am fod yn wylidwrus rhag llaesu dwylo ar yr agenda hon pan fu'n ni'n cyfarfod, ac roedden nhw'n gallu rhoi enghreifftiau o sut maen nhw'n adolygu'r model yn rheolaidd, yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth, ac yn rhoi sylw i'r bylchau hynny. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod yr Un Pwynt Mynediad ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol yn awr yn hygyrch trwy'r paneli SPACE-Llesiant; comisiynu astudiaeth ddichonoldeb yn edrych ar ddarparu gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth mewn rhannau o'r rhanbarth sydd heb wasanaeth cystal (yn arbennig yng Ngogledd Gwent); a chreu rôl gydlynw newydd ar draws y rhanbarth, gyda'r bwriad o wella'r hyn mae'r paneli SPACE-Llesiant yn ei gynnig ledled Gwent.

Mae Gwent yn datblygu cynlluniau ar gyfer llety newydd diogel sy'n cynnwys pedwar gwely newydd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd trwy argyfwng iechyd meddwl. Mae cynlluniau hefyd ar gyfer dau gartref un ystafell wely ar y safle, i gynyddu'r ddarpariaeth breswyl ehangach yng Ngwent, a luniwyd ar gyfer plant a all 'syrthio rhwng gwasanaethau'. Mae hyn i fod yn weithredol yn gynnar yn 2022.

Mae'r Tîm Cyswllt mewn Argyfwng yng Ngwent yn cynnig gwasanaeth dros y ffôn i weithwyr proffesiynol drafod pobl ifanc sy'n cymryd risgiau; ac maen nhw wedi estyn eu horiau gweithredu i 7 diwrnod yr wythnos, 8am — 7pm, gydag ymgynghorydd CAMHS ar gael ar alwad 24/7.

Gogledd Cymru

Un o enghreifftiau Gogledd Cymru o fabwysiadu dull gweithredu Dim Drws Anghywir yw'r prosiect Tîm Teulu Integredig Lleol (LIFT), lle mae Awdurdodau Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i greu fîm amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth, gyda'r bwriad o ymyrryd yn gynnar yn achos teuluoedd lle mae anawsterau ymddygiad yn dod i'r amlwg. Fe'i lluniwyd i bontio'r bwlch lle mae ymyriadau cyffredinol wedi bod yn aflwyddiannus, a lle nad yw teuluoedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau eraill megis CAMHS Arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phlant 0-18 oed a'u teuluoedd, ac yn cynnwys Arweinydd Tîm, Uwch Seicolegydd Clinigol, Therapydd Galwedigaethol, Nyrs Ymddygiad Arbenigol a phedwar Llywiwr. Eu nod yw cynnig dull gweithredu teulu cyfan wrth asesu, llunio ymyrraeth gyda dealltwriaeth o drawma ac ymlyniad, effaith Digwyddiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), yn ogystal ag anabledau dysgu a niwroddatblygiadol.

Mae'r rhanbarth yn cymryd rhan mewn cynllun peilot cenedlaethol ar gyfer fim addysg a chymorth cartrefi i blant a phobl ifanc sy'n ceisio sicrhau bod darparwyr llety sy'n gofalu am 'blant sy'n derbyn gofal' yn cael mynediad cyflym at gefnogaeth arbenigol gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol. Nod y prosiect hwn yw cefnogi sefydlogrwydd lleoliadau ac atal neu leihau dirywiad yng nghyflwr emosiynol, ymddygiad neu lesiant person ifanc, a allai arwain at eu derbyn i wasanaethau CAMHS neu ysbytai.

Yng **Ngogledd Cymru**, mae cynlluniau hefyd ar gyfer canolfan 'gofod diogel' galw heibio yn Wrecsam, lle gall plant 13-18 oed dderbyn cefnogaeth ar gyfer mater iechyd meddwl neu lesiant emosiynol brys. Bydd y ganolfan yng ngofal arweinydd clinigol rhanbarthol CAMHS, yn cael ei chydlynu gan iechyd ac Awdurdod Lleol Wrecsam. Mae'r prosiect yn gobeithio ehangu ymhellach i gynnwys sefydliadau'r trydydd sector. Bydd ar agor gyda'r hwyr, yn y nos, ac ar y penwythnos. Nod y prosiect yw atal neu leihau dirywiad yng nghyflwr emosiynol, ymddygiad neu lesiant person ifanc, a allai arwain fel arall at gymhwyso adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ('being sectioned'), galwadau i'r gwasanaethau brys, neu dderbyn i'r ysbyty neu gyflwyno mewn adran achosion brys. Bydd treial tri mis yn y misoedd sy'n dod.

Mae cynlluniau ar gyfer llety diogel newydd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ar draws y rhanbarth, gan gynnwys pedwar gwely newydd ar gyfer asesiadau tymor byr, a luniwyd i ddarparu man therapiwtig diogel tra bod dychwelyd at wasanaethau cymunedol neu leoliad tymor hwy yn cael ei drefnu, a gwely argyfwng yn rhan ddwyreiniol y rhanbarth. Sefydlwyd dau wasanaeth cymorth dwys newydd i weithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd sydd ar gyrion gofal. Y bwriad yw bod y gwasanaethau hyn yn cyfateb i'r cynnig preswyl newydd.

Powys

Rhannodd Powys gyda ni waith eu prosiect Canol Coll, sef fim integredig sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol CAMHS, gwasanaethau ieuencid a chwaraeon. Os na fydd atgyfeiriad yn cyrraedd trothwy CAMHS, mae rhaglen ymyrraeth ieuencid a fydd yn creu cysylltiad â'r person ifanc dan sylw ac yn eu cefnogi i gael yr help sy'n angenrheidiol. Yn 2020-21, cafodd 125 o bobl ifanc gefnogaeth un-i-un trwy'r gwasanaeth hwn. Maen nhw hefyd yn darparu gwaith grwpiau mewn ysgolion, gan gynnwys gwaith i feithrin gwynwch a gweithdai ar straen arholiadau, ac mae ymgynghoriadau CAMHS lle gallwch chi alw heibio yn holl ysgolion Powys.

Mae datblygiadau ar waith ar gyfer panel amlasiantaeth a fydd yn darparu ymyrraeth gynnar i'r plant ar draws ystod o wasanaethau, er na lwyddwyd i recriwtio cydlynnydd ar gyfer y panel hwnnw hyd yma. Mae Hwb Cymorth Cynnar Cyngor Sir Powys yn darparu cymorth arbenigol i fagu plant ar gyfer teuluoedd a gofaluwr plant a phobl ifanc sydd â diagnosis o ASD / Awstiaeth.

Dywed Powys wrthym eu bod yn gweithio mewn partneriaeth i archwilio dichonoldeb datblygu llety diogel i blant ag anghenion cymhleth yn y Sir. Byddem yn annog yr holl wasanaethau perthnasol i fod yn bartneriaid llawn yn y prosiect hwn.

Un flaenoriaeth hanfodol i'w llif gwaith plant a phobl ifanc yw adolygiad o'r ddarpariaeth niwroddatblygiadol. Mae Bwrdd Prosiect wedi cael ei sefydlu, ac mae llwybr diwygiedig i gael ei beilota.

Gorllewin Morgannwg

Rhannodd Gorllewin Morgannwg eu cynlluniau ar gyfer uned newydd i bobl ifanc fel rhan o'r Uned Argyfwng i Blant yn Ysbyty Treforys, a fyddai'n cynnwys staff fîm argyfwng CAMHS. Maen nhw hefyd wedi estyn oriau gweithredu eu fîm argyfwng CAMHS y tu allan i oriau i ganol nos 7 diwrnod yr wythnos. Ar hyn o bryd maen nhw'n edrych ar y posibilrwydd o estyn hyn i 24/7.

Mae Gorllewin Morgannwg wedi cynyddu rôl gyswllt CAMHS yn eu timau Un Pwynt Mynediad awdurdod lleol, er mwyn cefnogi'r timau awdurdod lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl.

Mae Gorllewin Morgannwg yn cynllunio panel anghenion cymhleth, sydd â'r rôl o gynghori ymarferwyr ynghylch yr achosion mwyaf cymhleth lle mae'r angen 'mwyaf sylweddol', er enghraifft gwneud trefniadau ar gyfer gofal parhaus. Bydd hyn yn cael ei dreialu gan ddefnyddio profiad bywyd go iawn person ifanc o Abertawe yn esiampl. Yn ddiweddar mae'r Panel wedi cwrdd am y tro cyntaf, a chyflwyno Cylch Gorchwyl ar gyfer gwella'r canlyniadau i'r rhai ag anghenion eithriadol o gymhleth ag adnoddau ar y cyd ym meysydd gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg. Bydd y Panel yn cwrdd bob mis gydag isafswm o dri yn bresennol, yn cynnwys un aelod iechyd ac un o'r awdurdod lleol i ffurfio cworwm. Caiff y trefniadau eu hadolygu ymhen chwe mis.

Yn ddiweddar mae Gorllewin Morgannwg wedi llwyddo wrth gynnig am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect sy'n ceisio cynyddu'r gefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal, i'w hatal rhag bod angen mynd i ofal preswyl. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu aelwydydd maethu cefnogol, gan gynnwys edrych ar y posibilrwydd o drefnu darparwr allanol ar gyfer hyfforddiant a therapi.

Gorllewin Cymru

Yng Ngorllewin Cymru mae'r fîm ymateb brys arbenigol ar gyfer CAMHS yn newid i weithredu 24/7 o fis Ionawr 2022.

Mae cynlluniau ar gyfer model gwasanaeth aml-ddisgyblaeth rhanbarthol sy'n cynnwys ymyriadau gwybodus am drawma, gyda'r nod o leihau ymddygiad heriol plant ag anghenion cymhleth a darparu cefnogaeth ymarferol i rieni.

Mae cynlluniau ar gyfer panel ymgynghorol newydd ar draws y rhanbarth yng nghyswllt anghenion cymhleth. Nod y panel hwn yw cyfeirio person ifanc at banel rhanbarthol, lle ceir cyfuniad o arbenigedd, i gynghori ar y camau nesaf os na all awdurdodau lleol unigol gael hyd i leoliadau addas ar gyfer y person ifanc dan sylw, a byddai'n rhaid eu lleoli allan o'r ardal.

Mae cynlluniau ar gyfer unedau newydd arsylwi ac asesu ym mhob sir o fewn y rhanbarth, fydd yn darparu gwelyau preswyl tymor byr i blant a phobl ifanc, a luniwyd i atal esgaladu i leoliadau preswyl tymor hwy.

Argymhelliad 2: Cytundebau ariannu ar y cyd, cyfranogiad plant a phobl ifanc, a threfniadau integredig ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion i blant ag anableddau dysgu

2.1 Ariannu ar y cyd

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol Rhan 9, sydd newydd eu newid, trwy wneud y canlynol:

Sicrhau nad yw cyllid yn cael ei weld fel rhywbeth sydd 'ym meddiant' y bwrdd iechyd na'r awdurdod lleol, a bod y trefniadau hyn yn destun cytundeb ysgrifenedig rhwng partneriaid. Dylai'r cyllid fod yn eiddo i'r rhanbarth cyfan, a dylai pob gwasanaeth deimlo bod ganddyn nhw gyfran gyfartal.

Sylwadau ar gynnydd BPRhau

Er ein bod wedi gweld rhai enghreifftiau o gyfuno cyllid ac ariannu ar y cyd gan ranbarthau, mae'n deg dweud nad yw'r dull gweithredu hwnnw'n gyffredin mewn rhai rhanbarthau. Dywedodd rhai rhanbarthau wrthyn ni fod ganddyn nhw gytundeb ffurfiol ysgrifenedig hirdymor ynghylch defnyddio cyllid ar y cyd. Dywedodd rhai wrthyn ni fod gan y byrddau plant penodol sy'n dod o dan y BPRh drosolwg o benderfyniadau ynghylch defnyddio cyllid mewn modd sy'n berthnasol i gyflawni eu blaenoriaethau, a bod y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud ar y cyd gan y gwahanol wasanaethau a gynrychiolir. Dywedodd rhai Byrddau wrthyn ni fod penderfyniadau'n destun cytundebau partneriaid unigol. Rydyn ni'n awgrymu y byddai trefniant symlach a mwy hirdymor yn gwella effeithlonrwydd ac yn y pen draw brofiadau plant a phobl ifanc.

Dangosodd un Bwrdd enghreifftiau penodol i ni o brosiectau lle mae cronfeydd yn cael eu cyfuno ac mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng partneriaid ar y sail bod cyfuno cyllid yn parhau. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys y bwrdd iechyd lleol, dim ond awdurdodau lleol.

Mae rhai meysydd gwaith penodol lle mae'n rhaid yn syml i drefniadau ariannu ar y cyd â iechyd ac awdurdodau lleol gael eu gwella. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i'r plant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, y mae gofyn bod ganddynt drefniadau gofal parhaus.

2.2 Ymgysylltu, cydgynhyrchu a chraffu gyda phobl ifanc

Yng ngoleuni'r gofyniad statudol newydd i ddyletswyddau adran 12 estyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dylai pob Bwrdd adolygu eu trefniadau presennol ar gyfer ymgysylltu a chydgyhyrchu â phlant a phobl ifanc. Dylai BPRhau ddefnyddio fframwaith Y Ffordd Gywir CPC er mwyn defnyddio dull seiliedig ar hawliau plant i weithio gyda phlant a phobl ifanc i dywys sut maen nhw'n gweithredu, ochr yn ochr â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Rhaid i hyn gynnwys y Bwrdd ei hun yn clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso i ddylanwadu ar waith y Bwrdd.

Sylwadau ar gynnydd BPRhau

Soniodd rhai Byrddau wrthyn ni am waith cyfranogiad uniongyrchol roedd y BPRh wedi'i wneud gyda phlant a phobl ifanc, sydd i'w groesawu'n fawr. Mae un Bwrdd wedi creu bwrdd cysgodol o bobl ifanc sy'n cael ei amlinellu yn yr astudiaeth achos isod. Gallai eraill ddangos eu bod wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu ac arolygon, ac roedden nhw'n adrodd yn ôl ar sut mae hynny wedi dylanwadu ar eu cyfeiriad strategol a'u prosiectau. Mae un Bwrdd wedi uwchlwytho gwybodaeth am eu gweithgareddau ymgysylltu fel pecyn offer ar eu gwefan.

Er bod llawer o'r BPRhau yn gallu arddangos gwaith cyfranogiad calonogol oedd yn digwydd yn eu rhanbarth — trwy'r bwrdd iechyd neu'r awdurdodau lleol — nid oedd pob un ohonynt yn gallu dangos sut mae'r Bwrdd *eu hunain* wedi cynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith. Fel mae fy argymhelliad yn nodi, dylai Byrddau fod yn clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc. Dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i alw Byrddau i gyfrif. Dyna pam rydyn ni wedi rhannu adnoddau er mwyn i'r BPRh gefnogi gwaith ymgysylltu. Rydyn ni wedi seilio hyn ar waith y buon ni'n ei dreialu a'i gynnal gyda phobl ifanc, BPRhau a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn ystod y prosiect hwn. Rydyn ni'n gobeithio y bydd Byrddau'n cael bod hyn yn ddefnyddiol fel templed ar gyfer ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn eu rhanbarth. Rydyn ni hefyd yn argymhell pecyn offer [Cwm Taf Morgannwg](#), sy'n cael ei ddisgrifio mewn adran ddiweddarach o enghreifftiau astudiaethau achos.

Roedd yn gadarnhaol nodi, yn dilyn ein sesiwn gyda BPRhau a phobl ifanc, fod rhai o'r Byrddau wedi gofyn am greu cysylltiad uniongyrchol â'r bobl ifanc o'u rhanbarth, er mwyn parhau â'r sgwrs ac archwilio cyfleoedd pellach i ymgysylltu a blaenoriaethau.

Enghreifftiau o achosion cadarnhaol

Mae BPRh **Powys** wedi sefydlu Bwrdd Dechrau'n Dda Iau, yn cynnwys pobl ifanc 11-25 oed, sydd bellach wedi cwrdd nifer o weithiau. Mae gan y Bwrdd ei gylch gorchwyl ei hun, ac mae wedi enwebu ei gadeirydd ei hun. Mae Cadeiryddion y Bwrdd Dechrau'n Dda (is-grŵp oedolion y prif fwrdd) yn mynychu pob cyfarfod, ac mae eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd Dechrau'n Dda i ddiweddarau holl aelodau'r bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi trafod Dim Drws Anghywir, ac wedi penderfynu sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, yn ogystal â chynnal arolwg pobl ifanc (gyda 180 o ymatebion) ynghylch mynediad at gefnogaeth i'w llesiant emosiynol.

Yng **Nghwm Taf Morgannwg**, mae'r BPRh wedi datblygu eu pecyn offer ymgysylltu eu hunain fel rhan o'r asesiad o lesiant ac angen lleol, gydag adran benodol ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys amlinellu gweithgaredd cyswllt geiriau i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc ynghylch blaenoriaethau i'r rhanbarth, cyn gofyn iddyn nhw roi eu blaenoriaethau mewn trefn a llunio cynllun ar gyfer sut mae cyflawni'r blaenoriaethau trwy ddefnyddio matrices 'pwy, beth, pam, sut'. Roedden ni'n falch o weld y pecyn offer yma'n cael ei lanlwytho i'w gwefan. Hefyd llwyddodd y rhanbarth i rannu rhai gweithgareddau ymgysylltu arloesol gyda ni, oedd yn cynnwys cyfansoddi cān, grŵp drama, ac ysgrifennu llyfr byr — y cyfan wedi'i seilio ar iechyd meddwl a llesiant.

Rhannodd **Gogledd Cymru** dystiolaeth o gyfranogiad plant a phobl ifanc, gan gynnwys gweithdai ar gyfer plant a phobl ifanc, a gweithwyr proffesiynol, yn haf 2021, gan edrych yn benodol ar ymateb i'n hadroddiad Dim Drws Anghywir. Mae hefyd ymgysylltiad i'w groesawu â theuluoedd lle mae plant neu bobl ifanc yn disgwyl asesiad am gyflwr niwroddatblygiadol, a luniwyd i helpu i lywio darparu'r gwasanaeth.

Yng **Ngwent**, mae'r BPRh a'r Bwrdd Plant a Theuluoedd wedi gweithio ar ddatblygu llyfr stori i ofalwyr 'It's Cool to Care!', a grëwyd gan ofalwyr ifanc eu hunain trwy fforymau ar-lein yn ystod y cyfnod clo, ac a lansiwyd yn ystod Wythnos Gofalwyr 2021.

2.3 Pontio i wasanaethau oedolion

Fel rhan o'u dyletswydd i gefnogi trefniadau pontio effeithiol, integredig o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyhoeddi protocolau pontio amlasiantaeth, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, yn ystyried sut mae cyflwyno dull gweithredu sy'n sicrhau bod anawsterau lluosog ac ystyfnig gwahaniaethau ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac ar draws sectorau yn cael eu hintegreiddio gymaint â phosibl.

Sylwadau ar gynnydd y BPRhau

Roedd y rhan fwyaf o'r rhanbarthau yn gallu esbonio wrthyn ni pa gynlluniau oedd ganddyn nhw ar gyfer polisiau a phrotocolau pontio rhanbarthol, ac mae hynny i'w groesawu. Nid adroddodd un Bwrdd am unrhyw gynlluniau ar gyfer polisi a phrotocol rhanbarthol. Mae un arall yn adolygu eu protocol pontio cyfredol.

Nid oedd bob amser yn hawdd i ni weld sut byddai'r protocolau yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i deuluoedd ar lawr gwlad, a doedden ni ddim yn teimlo bod hynny wedi cael ei ddangos yn ddigonol i ni, ac eithrio mewn nifer bach o enghreifftiau, megis safle ar-lein i gadw cyngor a chyfarwyddiadau ar gyfer plant ag anableddau dysgu a'u teuluoedd. Mae angen gwirioneddol am ddull sy'n wir yn rhanbarthol o ymdrin â hyn ym mhob rhanbarth o Gymru. Mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi [canllawiau pontio newydd i Fyrddau Iechyd](#), ond mae hynny'n annhebygol o ddarparu'r ymateb amlasiantaeth sydd ei angen ar blant ag anableddau dysgu. Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed mwy o fanylion am y polisiau a'r protocolau pontio ym mhob rhanbarth.

Enghreifftiau o achosion cadarnhaol

Yng **Nghaerdydd a Bro Morgannwg** mae protocol pontio newydd ar gyfer plant a phobl ifanc 14-25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, sef *Cynllunio ar gyfer fy Nyfodol*. Mae eisoes yn cael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth, a bydd yn cael ei lansio'n ffurfiol ym mis Mawrth 2022. Mae pobl ifanc wedi ymwneud â datblygiad y protocol, er mwyn helpu i lunio'r cynnwys a sut mae'n cael ei gyflwyno i bobl ifanc, gan gynnwys dylunio'r fersiwn darllen hwylus a ffilm a gynhyrchwyd ar y cyd â phlant a phobl ifanc. Mae'r protocol yn un amlasiantaeth, a'r partneriaid dan sylw yw Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, y Bwrdd

lechyd a'r trydydd sector ar draws y rhanbarth. Mae'r protocol yn amlinellu sut bydd gwasanaethau sy'n ymwneud â bywyd y person ifanc yn gweithio ar y cyd i alluogi pontio di-fwlch i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc. Mae'r rhanbarth hefyd yn datblygu llety newydd 16+ mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, gyda'r nod o ddatrys anawsterau pontio.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol **Caerdydd a'r Fro** wedi lansio gwefan newydd Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl, gydag adrannau penodol ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol. Mae'r wefan yn darparu adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc i gynnal eu hiechyd emosiynol a'u llesiant mewn modd mwy hygyrch ar-lein. Mae hyn yn cynnwys fideos wedi'u hanimeiddio a gynhyrchwyd ar y cyd â Bwrdd Iechyd y Bwrdd Iechyd. Mae'r wefan hefyd yn rhoi arweiniad a chynghor ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael, megis y gwasanaeth Un Pwynt Mynediad.

Yng **Ngogledd Cymru** maen nhw'n datblygu protocol pontio amlasiantaeth rhanbarthol ar gyfer plant ag anableddau dysgu, mewn ymgynghoriad â gweithwyr proffesiynol. Bydd y Bwrdd hefyd yn cyhoeddi adroddiad ymchwil sydd wedi edrych ar brofiadau pobl ifanc sy'n gadael ysgolion arbenigol yng Ngogledd Cymru, gyda nifer o argymhellion ar gyfer gwella'r profiad hwnnw. Mae'r Bwrdd hefyd wedi peilota dull gweithredu cyfannol yng Ngwynedd (trwy gyllid ICF) sydd â [phlatform canolog ar-lein](#) ar gyfer cael mynediad i wybodaeth am wasanaethau mewn modd hygyrch. Ystyrir darparu hyn ar draws y rhanbarth.

Ym **Mhowys** mae protocol pontio ar gyfer pobl ifanc ag Anableddau Dysgu yn cael ei ddatblygu, ond mae'n ddyddiau cynnar o hyd, a bu oedi oherwydd cystadleuaeth rhwng blaenoriaethau yn ystod pandemig Covid. Bellach mae panel brysbennu misol yng Nghyngor Sir Powys i drafod y trefniadau wrth i bobl ifanc ag Anableddau Dysgu symud i wasanaethau oedolion.

Yng **Ngorllewin Morgannwg** mae Polisi Pontio rhanbarthol newydd trosfwaol, a Chynllun Cleifion Unigol, a gynhyrchwyd ar y cyd â phobl ifanc. Mae'n cael ei beilota adeg ysgrifennu hwn, gyda'r nod o'i estyn ar draws y rhanbarth yn 2022/23.

Dywedodd **Gorllewin Cymru** wrthyn ni am gynnydd yn Sir Gaerfyrddin lle mae ffin Anableddau Dysgu amlasiantaeth 0-25 yn ei le. Roedd yr awdurdod lleol yn defnyddio dull cydgynhyrchu wrth redeg y gwasanaeth, trwy ymgynghori â phobl ifanc a rhieni/gofalwyr. Pan gwrddon ni â'r Bwrdd, roedd aelodau o ardaloedd eraill yn awyddus i ddysgu o'r dull gweithredu hwn ac yn cynnal sgysiau am sefydlu trefniadau tebyg yn eu hardaloedd eu hunain.

Argymhelliad 3: gweithio gyda T4CYP a gwybodaeth hygyrch

3.1 Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio gyda'r Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (2) i archwilio sut gallan nhw drefnu rôl a gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn well a rhoi gwell cyhoeddusrwydd iddo, fel ei fod yn fwy hygyrch i deuluoedd. Dylai hynny gynnwys disgrifiadau hygyrch o lwybrau amlasiantaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â'r prosiectau hynny sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a'u teuluoedd.

Sylwadau ar gynnydd y BPRhau

Rydyn ni wedi cael ein plesio gan ymdrechion rhai BPRhau i wneud eu gwaith yn fwy hygyrch trwy eu platfformau ar-lein. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys fideos ac astudiaethau achos ysgrifenedig sy'n arddangos hanesion unigol, a beth hoffai'r unigolion hynny ei weld yn cael ei wella. Roedd gwefan un Bwrdd yn arddangos eu dull o ymgysylltu trwy becyn offer a gyhoeddwyd ar eu gwefan.

Fodd bynnag, rydyn ni'n siomedig bod gwefannau rhai BPRhau yn dal heb fod yn hwylus i'w defnyddio, ac nad ydyn nhw, er enghraifft, yn diweddar cofnodion eu cyfarfodydd yn rheolaidd. Mae hyn yn destun siom gan iddo gael ei amlygu yn fy adroddiad ym mis Mehefin 2020. Yn arbennig yng ngoleuni pandemig Covid, mae disgwyl cynyddol i wybodaeth o safon fod ar gael yn hwylus ar wefannau gwasanaethau cyhoeddus.

O ran y gwasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc, gwnaed peth cynnydd gan fyrddau iechyd lleol i hysbysebu gwasanaethau CAMHS yn well yn ystod y pandemig a, lle sefydlwyd llwybrau amlasiantaeth, mae peth gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael ar-lein. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir nad yw'r wybodaeth honno ar gael yn hwylus ym mhob rhanbarth o Gymru, er gwaethaf ceisiadau ac ymdrechion rheolaidd i atgoffa gan fy swyddfa.

Rydyn ni'n falch o adrodd bod pob Bwrdd wedi ymgysylltu â T4CYP a'r fframwaith NEST / NYTH, er i un rhanbarth nodi eu bod yn aros am hwb i'w cyllid cyn symud ymlaen â chynlluniau i wreiddio'r Fframwaith yn eu gwaith. Fel y nodwyd mewn man arall, mae angen gwirioneddol am gefnogi BPRhau i roi'r fframwaith NEST / NYTH ar waith, a'u galw i gyfrif am eu gwaith parhaus yn ei gyflawni. Mae'r estyniad chwe mis i raglen T4CYP i gefnogi hynny i'w groesawu; mae'n aneglur hyd yma beth fydd cynnwys y rhaglen waith honno, ac a fydd hynny'n caniatáu digon o amser i'r holl Fyrddau wreiddio a chyflwyno'r fframwaith yn llawn.

Enghreifftiau o achosion cadarnhaol

Mae [gwefan](#) newydd BPRh **Cwm Taf Morgannwg** yn hawdd ei defnyddio, ac yn cynnwys ffilmiau, astudiaethau achos ac esboniad clir ar y broses o asesu anghenion y boblogaeth trwy'r fframwaith '100 diwrnod o ymgysylltu'. Mae'r astudiaethau achos yn adrodd hanesion unigolion, gan gynnwys beth hoffai'r unigolion hynny ei weld yn cael ei wella yn eu rhanbarth. Mae'n darparu gwybodaeth i esbonio'r gwaith mae'r BPRh yn ei wneud mewn modd hygyrch, ac yn rhannu pecyn offer ar ymgysylltu â dinasyddion yn eu rhanbarth, gan gynnwys â phlant a phobl ifanc yn benodol. Mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer Grŵp Ymgysylltu â Gweithredu Cymunedol y rhanbarth, sy'n casglu safbwyntiau ar gyfer asesu llesiant ac angen.

Mae **Caerdydd a Bro Morgannwg** wedi lansio [gwefan](#) newydd ar gyfer Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl, gydag adrannau penodol ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol. Mae'r wefan yn darparu adnoddau mwy hygyrch ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc, er mwyn cefnogi'u hiechyd a'u llesiant emosiynol. Mae hyn yn cynnwys fideos wedi'u hanimeiddio a gynhyrchwyd ar y cyd â Bwrdd

leuenctid y Bwrdd Iechyd. Mae'r wefan hefyd yn rhoi arweiniad a chynghor ar ba wasanaethau sydd ar gael, megis y gwasanaeth Un Pwynt Mynediad.

Yng **Ngwent**, mae gwybodaeth am y paneli amlasiantaeth SPACE-Llesiant ar gael ar-lein, gan gynnwys tudalen ar y we sy'n rhoi manylion cyswllt pob panel i deuluoedd er mwyn iddyn nhw fedru hunangyfeirio, yn ogystal â gwybodaeth i weithwyr proffesiynol eraill. Mae hynny'n cynnwys disgrifiadau o'r hyn sydd i'w ddisgwyl gan y panel SPACE-Llesiant.

Yng **Ngorllewin Morgannwg** mae'r bwrdd iechyd yn ddiweddar wedi lansio [gwefan](#) yn cynnig cyngor a chefnogaeth ynghylch iechyd meddwl a llesiant i blant a phobl ifanc, sef *Tidy Minds*. Mae'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd i blant a phobl ifanc, yn ogystal â chynghor a chefnogaeth i rieni a gofalwyr. Cynhyrchwyd y wefan hon ar y cyd â phlant a phobl ifanc.

3.2 Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio gyda dinasyddion a chynrychiolwyr trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn ddigonol mewn gwaith ystyrlon fel rhan o'r Bwrdd, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn fel partneriaid cyfartal gan yr aelodau statudol sy'n rhan ohono.

Sylwadau ar gynnydd y BPRhau

Doedden ni ddim yn teimlo bod unrhyw Fwrdd yn gallu rhoi ymateb gwirioneddol foddhaol i ni o ran yr argymhelliad hwn. Yn sicr, ymddengys bod rhai Byrddau'n well nag eraill o ran ymwneud â'r trydydd sector, ac ymddengys bod partneriaid trydydd sector yn cyflawni rôl gref mewn sawl un o'r Byrddau. Fodd bynnag, rydyn ni wedi parhau i glywed gan gynrychiolwyr trydydd sector mai'r gwasanaethau statudol sy'n cael y lle amlycaf yn y sgysiau, ac nad ydynt hwythau bob amser yn cael eu gwerthfawrogi fel partneriaid cyfartal.

Er i nifer o'r Byrddau fedru dangos bod y trydydd sector yn chwarae rhan yn eu cyfarfodydd, a'u bod yn cyflwyno gwasanaethau mewn partneriaeth â'r trydydd sector, ni welwyd fawr ddim tystiolaeth bod Byrddau'n mynd ati i adolygu rôl partneriaid trydydd sector i sicrhau eu bod wedi'u gwreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau.

Un yn unig o'r ymweliadau â BPRhau oedd yn cynnwys cyfraniadau gan gynrychiolwyr dinasyddion yn ystod y cyfarfod gyda Sally — **Gorllewin Morgannwg**. Roedden ni'n falch o weld bod dau gynrychiolydd o blith y defnyddwyr gwasanaeth wedi codi pwyntiau yn y cyfarfod yr aethon ni iddo, ac yn wir fe welson ni'r cynrychiolwyr hynny hefyd yn gwneud awgrymiadau mewn negeseuon e-bost, gan gynnwys gwneud y Bwrdd yn ymwybodol o waith BPRh arall, oedd yn rhoi gwybodaeth am eu hasesiad anghenion poblogaeth ar eu gwefan.

Rydyn ni'n falch o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen newydd i ystyried aelodaeth BPRhau a sefyllfa a chyfraniadau cynrychiolwyr trydydd sector dinasyddion a gofalwyr. Rydyn ni'n deall y gellid newid y canllawiau statudol mewn perthynas ag aelodaeth Byrddau. Bydden ni'n croesawu symudiad o'r fath i sicrhau bod cynrychiolwyr trydydd sector, dinasyddion a gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn modd gweithredol ac ystyrlon.

Enghreifftiau o achosion cadarnhaol

Gorllewin Morgannwg oedd yr unig Fwrdd y cwrddon ni â nhw lle roedd cynrychiolwyr dinasyddion yn cyfrannu'n weithredol i'r cyfarfod. Roedd ymwneud cynrychiolwyr dinasyddion â'n cyfarfodydd gyda'r BPRh yn cynnwys gwneud cyfraniadau i'r drafodaeth, a dilyn hynny ag e-byst yn rhannu arfer da o ranbarthau eraill.

Mae **Caerdydd a Bro Morgannwg** yn datblygu fframwaith cyfranogiad, ac mae'r trydydd sector yn cefnogi cyflawni hyn, mewn partneriaeth â'r BPRh. Mae cynllun i fuddsoddi'n sylweddol yn y gwaith hwn, a fydd yn destun cynigion tendro. Bydd y gwaith yn creu cysylltiad â fforymau presennol ac yn defnyddio dull cynhyrchu ar y cyd. Yn ogystal â chynrychiolaeth ar y BPRh a Phartneriaeth Dechrau Da, mae gan grwpiau cyflawni lechyd Emosiynol a Llesiant gynrychiolwyr trydydd sector gweithredol a grŵp rhanddeiliaid ar gyfer ymgysylltu ehangach ar draws y ffrydiau gwaith.

Yng **Ngwent** mae'r fîm ICF a'r Swyddfa Rheoli Perfformiad sy'n cefnogi'r BPRh wedi cydweithio'n agos â chydweithwyr trosfwaol o'r trydydd sector (GAVO a TVA) i sicrhau bod partneriaid wedi'u gwreiddio yn y broses o gynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch meysydd sy'n ymwneud â phlant ag anghenion cymhleth. Mae sefydliadau sector gwirfoddol wedi helpu i gynllunio dyraniad cyllid ICF yn unol ag argymhellion LIC. Mae sefydliad gwirfoddol Sparkle hefyd yn ymwneud â'r is-grŵp rhanbarthol strategol ynghylch plant ag anghenion cymhleth.

3.3 Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar faterion lle mae gorgyffwrdd posibl lle mae'r rhain yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys cytundeb ynghylch sut mae delio â'r materion hynny a fyddai'n elwa o gydweithio rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, megis sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer ceisiadau cyllido neu gomisiynu ar y cyd.

Sylwadau ar gynnydd y BPRhau

Roed y BPRhau yn gallu dweud wrthyn ni eu bod wedi cwrdd â'u BGC neu eu BGCau, ac roedd sawl un wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu ffordd ymlaen, gan sicrhau eu bod yn ymgysylltu ar faterion lle mae gorgyffwrdd. Roedd y rhai oedd heb ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wrthi'n ystyried eu dull gweithredu er mwyn cydweithio'n agosach â'r BGC. Dywedodd y rhan fwyaf o'r BPRhau wrthyn ni eu bod yn cydweithio'n agos â'r BGC neu'r BGCau yn eu rhanbarth ar eu hasesiadau anghenion poblogaeth, adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad, ac asesiadau llesiant.

Enghreifftiau o achosion cadarnhaol

Yng **Ngwent** mae Grŵp Asesu Llesiant sy'n cyfuno aelodau o'r BPRh a'r BGC, sydd wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu asesiad ar y cyd o anghenion y boblogaeth ac asesiad llesiant. Mae'r rhanbarth yn datblygu

BGC rhanbarthol er mwyn cysylltu'r materion lle mae gorgyffwrdd. Mae BPRh Gwent yn parhau i gwrdd â phum Cadeirydd y BGCau yn y rhanbarth i drafod heriau cyffredin ac ymateb mewn partneriaeth.

Atodiad 2: Ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion o 2020

1. Gan mai Llywodraeth Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae angen iddyn nhw arddangos arweinyddiaeth trwy egluro'u cyfrifoldeb am y fframwaith mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithredu oddi mewn iddo. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mecanweithiau atebolrwydd cadarn yn eu lle er mwyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd am eu gwaith ynghylch trefniadau amlasiantaeth i blant ag anghenion cymhleth, gan gynnwys pontio i wasanaethau oedolion. Dylai hynny gynnwys mynd ati'n rhagweithiol i adolygu Cynlluniau Ardal Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a monitro cynnydd yn erbyn eu huchelgeisiau trwy Adroddiadau Blynyddol a chyfarfodydd.
2. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyda'u strategaethau tymor hir. Bydd mwy o angen am y gefnogaeth hon nag erioed oherwydd yr amgylchiadau presennol, a dylai ddangos yn eglur sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid ar gael i gyflawni gwell profiadau a chanlyniadau i blant a'u teuluoedd. Dylai hyn gynnwys newid system a fydd yn helpu teuluoedd i brofi dull gweithredu 'dim drws anghywir' ym mhob rhanbarth, megis timau integredig, paneli a modelau hwb er mwyn darparu cymorth amserol cydlynus, canolfannau galw heibio a chynlluniau ar gyfer darpariaeth breswyl integredig lle bo angen.

Sylwadau ar gynnydd Llywodraeth Cymru

Rydyn ni'n croesawu newidiadau a wnaed i [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 Canllawiau Rhan 9](#) yn 2020. Gwelsom effaith y newidiadau hyn yng ngwaith y BPRhau, gan gynnwys sefydlu is-grwpiau plant ym mhob Bwrdd, a diffiniad cliriach o 'blant ag anghenion cymhleth'. Rydyn ni hefyd yn croesawu'r newidiadau i ganllawiau'r asesiad anghenion poblogaeth, sy'n rhoi ffocws ar blant a phobl ifanc.

Rydyn ni'n cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid sylweddol yn benodol ar gyfer rhai o'r nodau yn ein hargymhellion Dim Drws Anghywir, yn fwyaf nodedig ar gyfer llety newydd diogel i blant ag anghenion cymhleth. Maen nhw hefyd wedi nodi eu disgwyliadau o ran ffocws ar integreiddio gwasanaethau plant a phobl ifanc i'r canllawiau ICF a'r canllawiau asesu anghenion poblogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi arddangos eu hymrwymiad i'r agenda hon trwy graffu ar waith y Byrddau o ran integreiddio gwasanaethau trwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd â nhw.

Roedden ni'n falch o weld y canlynol:

- Ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r BPRhau, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gan y Dirprwy Weinidogion, a threfnu digwyddiadau dysgu a rennir. Roedd Swyddfa'r Comisiynydd yn falch o fedru bod yn bresennol yn un o'r digwyddiadau dysgu a rennir hynny, oedd yn canolbwyntio ar gyfranogiad plant a phobl ifanc a'u hymgysylltiad ag Aseidiadau Anghenion Poblogaeth ac Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad.
- Y newidiadau a wnaed i'r canllawiau atodol i'r [BPRhau ar gyfer Aseidiadau Anghenion Poblogaeth](#). Mae ffocws cliriach ar blant a phobl ifanc, ac rydyn ni'n arbennig o falch o weld sut mae'r BPRhau wedi ymateb i hynny.
- Cyllid — rydyn ni'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyllid tymor hwy sy'n cyfuno ICF a chyllid trawsffurfio, yn rhannol er mwyn cefnogi gweithrediad NEST / NYTH. Rydyn ni'n falch o weld yr ymateb hwn i'n sylwadau blaenorol ynghylch cyllid tymor byr, ac rydyn ni'n gwybod y byddai BPRhau yn croesawu ymrwymiad o'r fath i gyllid tymor hwy. Roedd eu ymateb i ni ym mis Rhagfyr 2021 yn dweud "Bydd plant ag anghenion cymhleth hefyd yn parhau'n ffocws ar gyfer y Gronfa newydd, a fydd yn disodli'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsffurfio", ond wrth i ni ysgrifennu hwn ym mis Chwefror 2022 nid yw manylion llawn y gwaith yma wedi ei gyhoeddi.
- Mae'r [Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth](#) yn addo cryfhau'r trefniadau partneriaeth rhanbarthol yng nghyswllt llywodraethu a chraffu, cynllunio a pherfformiad, ymgysylltu a llais, cyflwyno gwasanaethau mewn modd integredig, ac ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol.
- Estyniad i waith y rhaglen T4CYP hyd at fis Medi 2022, yn benodol i gefnogi:
 - **"Gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**, parhau i gefnogi BPRhau â gweithrediad NYTH a chyswllt â threfniadau CoP cyn trosglwyddo i arweinydd gweithredu NYTH LIC pan gaiff ei benodi; a
 - **Gwasanaethau Niwroddatblygiadol**, caniatáu amser i ystyried yr adolygiad D&C, gyda golwg ar ddatblygu gweithgaredd gwella a chefnogi yn y maes hwn i'r dyfodol."

Beth mae angen i ni ei weld nawr:

- Nid yw'r mecanwaith atebolrwydd cadarn y buom ni'n galw amdano yn ei le eto. Mae hyn yn gwbl hanfodol ar gyfer gwreiddio a chyflwyno fframwaith NEST / NYTH fel rhanbarth. Mae'r estyniad o chwe mis i raglen T4CYP i'w groesawu, ond mae angen dull mwy hirdymor i sicrhau llwyddiant y fframwaith pwysig hwn.
- Mae angen cryfhau'r cynigion sy'n deillio o'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal yng nghyswllt rôl a gweithrediadau BPRhau, gan gynnwys trefniadau cyfuno cyllid. Nodwn, yn ymateb Llywodraeth Cymru i ni ym mis Rhagfyr 2021, "nad ydynt wedi penderfynu na fyddant yn estyn y Rheoliadau", ond nid ymddengys bod awydd i wneud hynny ar hyn o bryd. Ar sail ein dau adroddiad, bydden ni'n dadlau bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau a gwreiddio darpariaeth amlasiantaeth o safon ym mhob rhanbarth ar gyfer plant a'u teuluoedd.

- Cyflwyno mecanwaith ariannu hirdymor sy'n galluogi BPRhau i flaengynllunio ar gyfer sawl blwyddyn er mwyn gwreiddio dull gweithredu Dim Drws Anghywir trwy fframwaith NEST / NYTH.

Mae ymateb y Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2021 yn cyfeirio at adroddiadau blynyddol BPRhau fel "cyfle i ddangos i gynulleidfa ehangach y mae'r BPRhau wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf." Ond fel y nodwyd eisoes, nid yw gwefannau'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn arbennig o hygyrch, ac mae'r adroddiadau hyn yn amrywio'n fawr o ran hyd a hygyrchedd. Bydden ni'n disgwyl i fwy gael ei wneud i hysbysu ac ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys plant, ynghylch gwaith a chylch gorchwyl y BPRh.

3. **Dylai Llywodraeth Cymru newid y Trefniadau Partneriaeth a'r Rheoliadau Asesiadau Poblogaeth fel bod cyfuno cyllid yn ofynnol, er mwyn sicrhau dull gweithredu 'dim drws anghywir' ar gyfer plant a phobl ifanc.**

Sylwadau ar gynnydd Llywodraeth Cymru

Yn y diweddariad gawson ni gan y Dirprwy Weinidog ym mis Hydref 2020, dywedwyd wrthyn ni na fyddai modd newid rheoliadau cyn diwedd tymor y Senedd. Rydyn ni nawr yn annog Llywodraeth Cymru i wneud y newidiadau hynny. Yn niweddariad Rhagfyr 2021 mae'r Llywodraeth yn dweud "ein ffocws ar hyn o bryd yw datblygu dulliau rhanbarthol o ymdrin â gofal preswyl i blant ag anghenion cymhleth, ac annog y partneriaid rhanbarthol i ddatblygu modelau cyflwyno mwy arloesol, megis micro-ofal a sector gwerth cymdeithasol ehangach." Mae'n annhebygol bod modd comisiynu a chyflwyno llety newydd diogel ar gyfer anghenion cymhleth mewn gwirionedd heb gyfuno cronfeydd ac adnoddau.

Enghraifft benodol lle nad yw trefniadau cyfuno neu rannu cyllid yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus yw'r trefniadau Gofal Parhaus. Y rheswm am hynny yw bod gweithio ar y cyd yn orfodol yn ôl y canllawiau Gofal Parhaus, ond mae cyfuno cyllid yn ddewisol. Mae'n gliriach nag erioed i ni bod rhaid i hwn fod yn faes lle dylai trefniadau cyfuno neu rannu cyllid fod yn orfodol. Mae'r canllawiau cyfredol yn annog cyfuno cyllid, ond heb wneud hynny'n orfodol. Mae'n eglur o'r gwaith achosion rheolaidd rydyn ni'n ei dderbyn, yn ogystal â sylwadau gan weithwyr proffesiynol uwch mewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, nad yw'r trefniadau presennol yn gweithio i deuluoedd.

Yn eu hymateb i ni ym mis Rhagfyr 2021, dywedodd Llywodraeth Cymru eto eu bod "wedi penderfynu yn erbyn sefydlu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) fel endidau corfforaethol cyfreithiol ar hyn o bryd". Nid ymddengys, fodd bynnag, bod dewis amgen yn cael ei gynnig er mwyn mynd i'r afael â'r materion rydyn ni wedi bod yn eu codi, er enghraifft, trefniadau cyllido. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu 'cynyddu cyfleoedd' i gyfuno cyllidebau, ond mae cyfleoedd eisoes yn bodoli, heb i neb fanteisio arnyn nhw.

Mae'r ymateb yn dyfynnu adroddiad KPMG ym mis Mehefin 2020 ar drefniadau preswyl i bobl dros 65 oed. Canfu'r adroddiad hwnnw nad yw pum BPRh yn cyfuno'u cronfeydd yn ymarferol, yn hytrach mae ganddyn nhw fecanweithiau adrodd a rennir yn unig. Mae gan rai o'r rhanbarthau, ond nid y cyfan, reolwr cyllid a gyfunwyd. Mae'r adroddiad yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn *disgwyl* i gyllidebau gael eu cyfuno'n ymarferol pan grëwyd y ddeddfwriaeth, ac eto nid ydynt yn mynd ar ôl hynny'n gadarn gyda'r BPRhau. Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod rhai manteision posibl i gyfuno cyllid, er enghraifft data rhanbarthol yn sail ar gyfer penderfyniadau strategol, ac i alluogi comisiynu go iawn ar y cyd. Mae'r rhain, wrth natur, yn

elfennau creiddiol o ddull gweithredu Dim Drws Anghywir, ac yn rhagofynion ar gyfer datblygu darpariaeth megis Gofal Parhaus a Llety Diogel Rhanbarthol yn briodol ar sail amlasiantaeth.

4. Rhaid i adolygiad cyfredol Llywodraeth Cymru o 'lety diogel' arwain at gymryd camau pendant i ddatblygu darpariaeth breswyl newydd yng Nghymru ar gyfer plant ag anghenion cymhleth pan adroddir amdanynt.

Sylwadau ar gynnydd Llywodraeth Cymru

Cawson ni ein calonogi gan ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn. Rydyn ni wedi bod yn arbennig o falch ynghylch y £2 filiwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer BPRhau, yn benodol er mwyn datblygu llety newydd diogel ar gyfer plant ag anghenion cymhleth a'r [canllawiau ICF penodol](#) sy'n cyd-fynd â hynny.

Mae'r rhan fwyaf o'r BPRhau wedi ymateb â chynlluniau ar gyfer llety newydd diogel, ac mae'r rhan fwyaf o'r rheiny'n cynnwys mewnbwn gan iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymorth therapiwtig. Mae rhai hefyd yn cynnwys cyfraniad gan y trydydd sector. Nid oes dim o'r darpariaethau wedi agor eto, fodd bynnag, ac nid oes ganddynt amserlen bendant ar gyfer agor. Mae anghytuno'n parhau mewn rhai ardaloedd ynghylch pwy ddylai ymwneud â hyn a beth dylai'r model fod, yn absenoldeb model cenedlaethol gan y Llywodraeth.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, rydyn ni'n pryderu, er bod y gwelyau newydd hyn i'w croesawu'n fawr, fod anawsterau difrifol yn parhau, gydag anghydfod rhwng asiantaethau ynghylch trefnu lleoliadau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Bydd y cynlluniau newydd hyn yn darparu gwasanaeth hanfodol ac yn helpu i atal plant rhag cael eu lleoli'n ddiangen mewn darpariaeth CAMHS haen 4, llety diogel y tu allan i Gymru, neu eu lleoli'n amhriodol yn yr ysbyty. Fodd bynnag, mae'n eglur i ni fod angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod gwasanaethau'n dod ynghyd i drefnu lleoliadau addas ar gyfer y plant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, ac nad oes gan yr asiantaethau sy'n ymwneud â hynny — ym mhob rhanbarth — broses ryngasiantaeth weithredol ar gyfer trefnu'r lleoliadau hynny i blant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

5. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (2) weithio gyda'u partneriaid a chyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i drefnu rhagor o ddigwyddiadau dysgu a rennir er mwyn canolbwyntio'n benodol ar ddull gweithredu 'dim drws anghywir' ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Dylai'r digwyddiadau dysgu a rennir hyn gynnwys trafodaeth ar y rhwystrau rhwng defnydd gwasanaethau o iaith (yn arbennig o ran iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, ond heb ei gyfyngu i hynny) yng nghyswllt plant ag anghenion cymhleth, er mwyn hyrwyddo'r diffiniad newydd ehangach o dan ganllawiau statudol diwygiedig Rhan 9, yn ogystal â chael eu llywio gan ddiffiniad Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru. Dylai'r digwyddiadau hefyd gynnwys trafodaethau ar sut

mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ac adnoddau'n cael eu cyfuno, ac a oes angen gwella'r system bresennol ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Sylwadau ar gynnydd Llywodraeth Cymru

Rydyn ni'n falch o adrodd bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda T4CYP, a'u bod wedi trefnu pedwar digwyddiad dysgu a rennir gyda'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn ar-lein gyda'r holl Fyrddau ar gyfranogiad ac ymgysylltiad ar gyfer eu hasesiadau anghenion poblogaeth a'u hadroddiadau sefydlogrwydd marchnad. Roedd ein swyddfa'n falch o fedru bod yn bresennol yn y digwyddiad hwn ynghylch mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i ddylanwadu ar gynlluniau strategol. Mae T4CYP hefyd wedi bod yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r BPRhau a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu fframwaith NEST / NYTH.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, fodd bynnag, fe glywson ni'n eitha aml gan Fyrddau oedd yn anymwybodol o waith arloesol oedd yn digwydd mewn rhanbarth arall. Bydden ni'n gobeithio y byddai'r digwyddiadau dysgu a rennir hyn yn golygu bod Byrddau'n fwy ymwybodol o waith tu allan i'w rhanbarth, ond mae'n amlwg bod rhaid gwneud mwy i rannu ymarfer.

Manylion Cyswllt

Comisiynydd Plant Cymru

T: 01792 765600

W: www.comisiynyddplant.cymru

E: post@complantcymru.org.uk

Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor Comisiynydd Plant Cymru

T: 01792 765600

E: cyngor@childcomwales.org.uk

W: www.comisiynyddplant.cymru